# RHYS, DAVID, THOMAS, and MARY, dau frawd a chwaer yn Llanbrynmair yn y 19eg ganrif, rhigymwyr a baledwyr

**Enw:** David Rhys
**Galwedigaeth:** rhigymwyr a baledwyr
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio; Barddoniaeth; Crefydd
**Awdur:** Elwyn Evans

Yr oedd DAVID (1742 - 1824) yn saer; cyfansoddai gerddi a charolau poblogaidd; yr oedd yn gerddor da ac yn arweinydd côr yr eglwys; bu farw ym Mhenygeulan. Yr oedd THOMAS (1750/51 - 1828) yn nodedig am ei ffraethineb ac am ei gerddi brathog; bu farw yn y Bont. Cyfansoddai MARY (1744? - 1842) gerddi hefyd, ond yr oedd yn fwy adnabyddus fel cantores. Hwy oedd bron yr olaf o'r canwyr cerddi a charolau yn Sir Drefaldwyn.

## Awdur

**Elwyn Evans**

## Ffynonellau


R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

dogfennau'r Eglwys yng Nghymru yn Ll.G.C.


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28361376


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu